Cyngor Cymuned Pentir

Cynhelir cyfarfod o'r Is Bwyllgor Cyllid yng Nganolfan Gymued Penrhos
am 7.00pm Nos Fercher 27ain o Fedi 2023

Agenda

1. Presennol
2. Ymddiheuriadau
3. Cod Ymddygiad
4. Cofnodion Cyfarfod diwethaf 28-06-2023
5. Materion yn codi o'r cofnodion
6. Adroddiad Ariannol
    a. Mantolen Ariannol
7. Archwylio
    i. Allannol 2022-23
8. Cofrestr Risg/Polisia
9. Cadarnhau Taliadau a taliadau angen sylw
    Cyflog Medi £651.84
    H M R C £163.00
10. Ceisiadau Nawdd Dim i law eto
11. Prosiectau
    i. Ysgol Y Faenol
        1. Cyfarfod gynhawyd rhwng rhai a swyddogion Gwynedd
        2. Ymateb Cyfreithwyr
    ii. Capel y Fynwent
        1. Cynllun/Spec i'r llawr
    iii. Lon Plas

12 I'w trafod hefyd

Cyngor Cymuned Pentir

Cofnodion cyfarfod o'r Is Bwyllgor Cyllid yng Nganolfan Gymued Glasinfryn
am 7.00pm Nos Fercher 28ain o Fehefin 2023

1. Presennol
   Cyng L A James Cadeirydd; Cyng J Lewis; Cyng B Jones; Cyng J Pierce; Cyn D Jones-Morris; Cyng I Ellis; Cyng D W Jones a'r Clerc

2. Ymddiheuriadau
   Neb – pawb yn bresennol

3. Cod Ymddygiad
   Cyng L A James a Cyng J Pierce yn aelodau o Ganolfan Penrhos

4. Cofnodion Cyfarfod diwethaf 31-05-2023
   a. Derbynwyd fel cofnod cywir ar gynnig Cyng B. Jones gafodd ei eilio gan y Cyng J Pierce

5. Materion yn codi o'r cofnodion
   b. Cyswllt wedi ei wneud hefo'r teulu oedd yn dymuno gosod mainc yn y fynwent er cof am aelod o'r teulu a manylion a lleoliad wedi ei gytuno

6. Adroddiad Ariannol
   - Mantolen Ariannol Mantolen wedi ei rhannu yn dangos £5,620.90 yn y cyfrif cyfredol a £45,242.50 yn y cyfrif cadw

7. Archwylio
   a. Mewnol
      Adroddiad wedi dod yn ol yn datgan ein bod wedi talu traelia 23-24 yn hytrach na traelia 22-23 oedd yn golygu gor-daliad o £6.00
      Sonwyd hefyd am sicrhau fod cyswllt rhithiol ar gael i aelodau o'r cyhoedd neu aelodau i fedru mynychu o bell neu arsylwi. Mi oedd hynny'n bosib pan yn cyfarfod yn rhithiol ond dim cyswllt ffon na gwefan yn ein canolfannau
   b. Allannol 2022-23
      Popeth am 2022-23 yn barod i'w anfon erbyn 8fed o Orffennaf
      Dim ymateb wedi ei dderbyn am Blwyddyn 2021-22

8. Cofrestr Risg/Polisia
   Nodwyd fod parcio rhieni Ysgol y Faenol ag efallai staff ar dir Canolfan Penrhos cymaint o broblem ag y bu erioed.
   Clerc i gysylltu a'n cyfreithwyr i darfod os oedd ymateb i'w gais am gyfarfod hefo swyddogion Gwynedd a'i peidio. Ychwanegwyd i ofyn i'r Cyfreithwr anfon at Cyngor Gwynedd i ddatgan y byddwn yn ail-osod y Giat ag yn cau y giat o Mis Awst ymlaen i sicrhau na fydd unigolion sydd ddim yn defnyddio'r ganolfan yn cael damwain ar dir y ganolfan

9. Taliadau angen sylw Argymell talu pob un o'r isod
   Cyflog Mehefin £ 651.84 HMRC M 3 £ 163.00 Sioned Jones Cyfieithu £ 40.00
   Gamlins £ 798.00 RoSPA Caerhun £ 90.00 Cymen £ 224.81

10. Ceisiadau Nawdd Dim cais mis yma

11. Prosiectau
    iv. Ysgol Y Faenol – Fawr o ddim i'w ychwanegu onibai am y broblem parcio sy'n parhau ag nad oes ymateb wedi bod i gais ein cyfreithwyr i gyfarfod Swyddogion Gwynedd er mae Gwynedd oedd wedi gofyn am gyfarfod yn y lle cyntaf

v. Septic tanc Glasinfryn

- Dechra'r gwaith Diwedd gorffennaf
  Bydd y contractwr yn cychwyn ar y gwaith ddiwedd Gorffennaf sy'n golygu fod perchennog yr hen Eglwys mewn gwirionedd wedi cael rhybudd o 12 mis i wneud trefniadau i'w garffosiaeth oedd ddim hefo caniatad i fynd i tanc septic y ganolfan beth bynnag
- Cysylltu hefo Gamlins
  Y Clerc eisioes wedi cysylltu a'n cyfreithwyr i ofyn iddynt anfon llythyr dilyniant i'r llythyr anfodwyd Gorffennaf 2022 yn rhoi rhybudd o 6 mis

vi. Capel y Fynwent

1. Cynllun/Spec i'r llawr

Fawr ddim i adrodd o ran y gwaith ond fod criw lleol wedi ymweld neithiwr 27/08/23 i weld be sydd wedi digwydd a be ydi ein camau nesaf. Cytunwyd fod angen cael arweiniad proffesiynnol i ddylunio yn union beth yda ni ei angen yn ein gweledigaeth ond i flaenoriaethu cael gosod y llawr newydd fel elfen gyntaf o'r prosiect 2023-24

vii. Lon Plas

'Roedd cais wedi ei dderbyn i'r Cyngor edrych ar y posibilrwydd o fabwysiadu Lon Plas Pentir a'i addasu/gydag eraill yn lwybr beicio allai fod yn rhan o lwybr beicio Llanberis/Bangor

Cytunwyd i'r Clerc gychwyn gwneud ymholiadau

12. <u>I'w trafod hefyd</u>

Cyng B Jones yn adrodd ei fod wedi cysylltu ag Aelod Senedd Cymru Sian Gwenllian i drafod os oedd siawns i ymestyn oed profion y colyddun ymhellach na 74 mlwydd oed 'Roedd wedi cael ymateb y byddai'n dod yn ola to o fewn 3 wythnos

Cyng L A James yn adrodd fod trafferthion 'swn' o barti aeth ymlaen tan 4 y bore gan drigolion sgwar Pentir ag iddi eu cymell i gadw dyddiadur / lluniau os yn bosib o unrhyw ddigwyddiadau cyffelyb yn y dyfodol

Daeth y Cyfarfod i ben am 9.00